

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN

Cofnodion 5 Tachwedd 2018

Cyflwyniad gan Michelle Clarke, Cydlynnydd Prosiect Cymdeithas Cludiant Cymdeithasol

Mynychodd Michelle Clarke a rhoi diweddariad ar y dulliau o gynyddu cludiant cymdeithasol yn yr ardal leol.

Bydd Michelle yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd ar 16 Ionawr 2019 er mwyn trafod y cynllun gweithredu trafndiaeth ar gyfer Gwynedd, ac i edrych ar yr ardaloedd hynny sydd yn elwa o unrhyw wasanaeth trafndiaeth ar hyn o bryd. Bydd Michelle Clarke yn adrodd yn adrodd yn ôl i'r cyngor cymuned yn dilyn y cyfarfod yma.

Mae yna nifer o opsiynau posibl, e.e. rhannu gwasanaeth gyda chynghorau cymuned eraill, prynu bus mini a chael gwirfoddolwyr i yrru. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu gwariant ariannol a gwariant blynyddol – er mae'n bosibl fod grantiau ar gael er mwyn talu am beth o'r costau.

Bydd Michelle yn danfon holiadur trafndiaeth drafft atom i ni ei gyfieithu, er mwyn darganfod yr angen a'r problemau trafndiaeth yn lleol.

1. Ymddiheuriadau

Llio Griffiths

Presennol: Y Cyngorydd Nia Povey, Gareth Thomas, Glyn Griffiths, Dafydd Watts, Rhydwen Roberts, Nyfain Wynn.

2. Datgan Diddordeb

Datganodd Y Clerc ddiddordeb yn Eitem 6.1, cyflog y Clerc a gadawodd yr ystafell pan y cafodd y mater ei drafod.

3. Cadarnhau Cofnodion 3 Medi 2018

Cadarnhawyd Cofnodion 3 Medi 2018.

Cadarnhawyd: Rhydwen Roberts

Eilio: Nyfain Wynn

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Arosfan Fysaiou

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd ail ystyried y sefyllfa, a chyflwyno cynllun symlach fyddai'n llai costus na'r cynllun presennol.

Mae'r buddsoddiad a argymhellir gan Gyngor Gwynedd o £40,000 a chost cysgodfan fws y tu allan i allu'r Cyngor Cymuned i'w ariannu a phe byddai'r gwasanaeth bysiau yn dod i ben ar unrhyw adeg byddai swm sylweddol o arian wedi ei wario'n ddi-bwrpas.

4.2 Mynwent Tan Lan

Mae trefniadau torri gwair newydd y fynwent yn gweithio'n dda.

Mae Cyngor Gwynedd bellach wedi darparu y bin ar gyfer gwastraff masnachol ac wedi cytuno i ddod i'r fynwent i'w wagio.

Cytunwyd fod angen edrych ar ddyfodol tymor hir y fynwent a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r arbenigwr a wnaeth peth gwaith dechreuol yn 2015 er mwyn trefnu cyfarfod safle fel y gallesid bwrw ymlaen â'r mater.

4.3 Asesiad Risg Y Ganolfan

Mae'r Cynghorydd Llio Griffiths i drefnu cyfarfod ar gyfer y gymuned yn Y Ganolfan. Gellir paratoi asesisad risg bryd hynny.

4.4 Cwmni Bro Twrog

Mae Cwmni Bro Twrog yn datblygu cynllun hydro ym Maentwrog.

Mae'r Cyngorydd Dafydd Watts yn aelod o'r cwmni

4.5 Garreg Frech

Mynegwyd unwaith eto'r farn fod cyflwr 13 Garreg Frech yn annerbyniol.

Mae'r eiddo wedi bod yn wag ers dros 20 mlynedd, a dim un o'r awdurdodau perthnasol wedi bod yn fodlon ymyrryd a defnyddio eu pwerau mewn perthynas â'r mater.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd er mwyn trefnu cyfarfod safle

4.6 Diogelwch traffig, Llanfrothen

Mae disgwyl y bydd Cyngor Gwynedd yn gosod offer mesur cyflymder ger y gofgolofn yn fuan. Hefyd mae Cyngor Gwynedd yn cydlynu efo Ysgol y Garreg o ran llunio posterï a deunyddiau fydd yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o beryglon goryrru,

4.7 Ty'n Llan/Old School House.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn am ddiweddariad gan adran gorfodaeth cynllunio Cyngor Gwynedd.

4.8 Llwybrau Cyhoeddus

Heb wybod faint o arian fydd Cyngor Gwynedd yn ei ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, mae'n anodd penderfynu pa lwybrau y dylid eu blaenoriaethu.

Gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd faint fydd eu cyfraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/2020

5. Gohebiaeth

- Taclo Unigrwydd Mewn Cymunedau
- Rhaglen Grant Dathliad Gaeaf Age Cymru
- Apêl Diffribliwr Cymunedau Cymuned Gwynedd
- Twristiaeth yng Ngwynedd – Cylch yr Iaith

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth

6. Materion Ariannol

- 6.1** Cyflog a Chostau Clerc, Medi a Hydref 2018
- 6.2** Costau Inc Argraffwr £60.28
- 6.3** Scottish Power – Trydan Y Ganolfan, Anfoneb 10 Hydref 2018.
Trydan 28/6/18 – 26/9/18, £81.00
- 6.4** Cyngor Gwynedd Anfoneb 9 Hydref 2018 Gwastraff Masnachol
26/10/18 – 31/03/19, £38.00
- 6.5** Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2017/18

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1 Coeden ar y B4410

Mae coeden yn dechrau dadwreiddio ar ochr y B4410, ac ar risg o ddymchwel ar y ffordd. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at adran briffyrdd Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ddelio â'r mater.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

7 Ionawr 2019 am 19:30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

